## LLYWODRAETH CYMRU

# GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANSANFFRAID GLAN CONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (DOWLAIS TOP I HIRWAUN) (FFYRDD YMYL) 2019 (AMRYWIO) (RHIF.3) 20--

## *AD-DREFNU MYNEDIAD PREIFAT FFERM GURNOS*

## DATGANIAD ESBONIADOL

### RHAGARWEINIAD

Mae Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod priffyrdd perthnasol, yn gyfrifol am yr holl gefnffyrdd yng Nghymru. Mae'r A465 yn rhan bwysig o rwydwaith ffyrdd strategol Llywodraeth Cymru. Yr A465 yw'r prif lwybr o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n cysylltu canolfannau diwydiannol canolbarth Lloegr a de Cymru yn ogystal â chynnig llwybr arall yn lle'r M4.

Yn dilyn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mawrth / Ebrill 2018, gwnaed Gorchmynion Deuoli'r Adran 5 a 6 Dowlais Top i Hirwaun gan Weinidogion Cymru ym mis Ebrill 2019. Mae opsiynau ar gyfer ychwanegu gwerth wedi parhau i gael eu hymchwilio. Mae'r Gorchmynion yn cynnwys:

**(i)** Gorchymyn Llinell 1999 a'r Gorchymyn Diwygio (Llinell) yw—

"Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999" fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Diwygio 2012, Gorchymyn Diwygio 2014, Gorchymyn Diwygio 2019 a Gorchymyn Diwygio 2021.

**(ii)** Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2019 a'r Gorchymyn Amrywio i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2020, a'r Gorchymyn Amrywio (Rhif. 2) i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yw—

a) Y "Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" yw "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019";

b) Y "Gorchymyn Amrywio i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" yw "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) 2020";

c) Y "Gorchymyn Amrywio i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" yw "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain

o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) (Rhif. 2) 2021".

**(iii)** Gorchymyn Prynu Gorfodol 2019 a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif.1) 2020 a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif.2) 2021 yw—

a) Y "Gorchymyn Prynu Gorfodol, wedi ei wneud ar 17 Ebrill 2019" yw "Gorchymun Prynu Gorfodol Cefnffordd Castell-Nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd man i'r Dwyrain o Abercynon i fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun)) 2019";

b) Y "Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif.1) 2020" yw "Gorchymyn Prynu Gorfodol Cefnffordd Castell-Nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd man i'r Dwyrain o Abercynon i fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun)) (Rhif.1) 2020";

c) Y "Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif.1) 2020" yw "Gorchymyn Prynu Gorfodol Cefnffordd Castell-Nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd man i'r Dwyrain o Abercynon i fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun)) (Rhif.2) 2021".

**(iv)** Mae'r Gorchymynau Ddrafft, sydd wedi'u cyhoeddi, yn cynnwys—

b) Y "Gorchymyn Amrywio (Rhif. 3) Atodol i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" yw "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) (Rhif. 3) 20--";

**(v)** Mae'r Gorchmynion a wnaed ar gyfer Deuoli'r A465 Dowlais Top i Hirwaun (y cyfeirir ato fel y "Cynllun Cyhoeddedig") yn cynnwys—

a) Gorchymyn Llinell 1999 a'r Gorchymyn Diwygio (Llinell) 2019 sydd yn awdurdodi llwybr y brif gefnffordd newydd, ffyrdd ymuno ac ymadael, ffyrdd cysytllu a dad-gefnffyrdd.

b) Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (GFY) 2019 a'r Gorchymyn Amrywio i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2020, a'r Gorchymyn Amrywio i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2021 sydd yn awdurdodi cau'r priffyrdd presennol (sy'n cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau a thraciau beicio), adeiladu a gwella priffyrdd newydd, cau mynediad preifat a darparu dulliau mynediad preifat newydd.

c) Gorchymyn Prynu Gorfodol 2019, a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif.1) 2020, a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif.2) 2021 yn darparu ar gyfer caffael y tir a'r hawliau sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu a chynnal y Cynllun Cyhoeddedig.

Lluniwyd Datganiad Amgylcheddol a Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol o effeithiau tebygol posibl y Cynllun Cyhoeddedig ar y cyd â'r Gorchmynion uchod. Nid yw'r Gorchmynion drafft a gyhoeddir bellach yn cael effaith amgylcheddol niweidiol ac felly nid oes angen unrhyw atchwanegiadau ar y dogfennau amgylcheddol.

Yn dilyn datblygiad pellach o ddyluniad y Cynllun, mae angen Amrywiad newydd (Rhif 3), i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl.

Mae angen y Gorchymyn Amrywio (Rhif. 3) Atodol i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl ar gyfer:

1. Ad-drefnu mynediad preifat Fferm Gurnos

Bydd rhai o'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Cyhoeddedig yn ei gwneud yn ofynnol i brynu tir ychwanegol a/neu hawliau ychwanegol dros dir. Caiff newidiadau arfaethedig mân iawn eraill i'r tir a gymerir, a wneir ar gais tirfeddianwyr yn bennaf, eu caffael drwy gytundeb neu, o dan rai amgylchiadau, fel adeiladwaith hwylustod, ac nid yw'n ofynnol awdurdodi hynny neu amrywio'r Gorchmynion a wnaed o ran hynny.

Nodir isod fanylion y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys sut y maent yn cymharu â'r Cynllun Cyhoeddedig a'r Gorchymyn a wnaed.

Bydd y Gorchymyn Amrywio drafft, os caiff ei wneud, yn amrywio Atodlenni 9 a 10 ac yn rhodder Cynlluniau Safle 9A a 10B gyda Chynlluniau Safle amgaeedig 9B a 10C o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl hyn ac yn awdurdodi'r newidiadau. Nid yw'r Gorchymyn Amrywio drafft yn effeithio ar yr Atodlenni a'r Cynlluniau Safle sy'n dwyn y rhifau 1A, 2B, 3B, 4B, 5A, 6B, 7A, 8, 11, 12A, 13, 14 a 15 o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed, ac maent yn parhau heb eu newid.

Ymwelwyd â thirfeddianwyr a phobl y byddai'r newidiadau i'r Cynllun Cyhoeddedig yn effeithio'n uniongyrchol ar eu heiddo neu eu mynedfeydd preifat er mwyn eu hysbysu am y cynigion cyn cyhoeddi'r Gorchmynion Diwygio a Amrywio (Rhif. 3) drafft hyn. Gwahoddir gwrthwynebiadau a sylwadau i'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Cyhoeddedig, fel y nodir yn yr hysbysiad cyhoeddus amgaeedig.

Nid yw'r un o'r cynigion yn y Gorchmynion drafft, a ddisgrifir isod, yn arwain at newid i amcanion cyhoeddedig y Cynllun Cyhoeddedig.

**<u>CYNIGION I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL AMRYWIO (RHIF. 3)</u>**

1. **<u>AD-DREFNU MYNEDIAD PREIFAT FFERM GURNOS (Cynllun Safle 9B a 10C)</u>**

Y cynnig yw disodli'r myndediad preifat o'i chyffordd bresennol i'r gorllewin gyda Chylchffordd y Gurnos, a'r aliniad o dan yr A465 arfaethedig, trwy danffordd a gosod mynedfa i'r dwyrain yn ei le gyda chyffordd ar gylchfan arfaethedig Prince Charles Junction. Mae hyn yn dileu strwythur tanffordd mawr o'r cynllun.

Y NEWIDIADAU SYDD EU HANGEN I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, GORCHYMYN AMRYWIO I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, A'R GORCHYMYN AMRYWIO (RHIF. 2) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021

Byddai angen diwygio'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl i ddileu'r mynedfa preifat newydd y cyfeiriwyd ato gan 9/1a, 9/2a, 9/3a, 9/4a, 9/5a o Atodlen 9 ac a ddangosir yng Nghynllun Safle 9B, a rhoi mynedfa preifat newydd yn ei le ar gyfer Fferm Gurnos, a chyfeirnod gan 10/5a a 10/5b, fel y dangosir yn Atodlen 10 ac a ddangosir yng Nghynllun Safle 10C. Bydd cau darnau priffyrdd ar gyfer cyfeirnodau 9/S4 hefyd yn cael eu diwygio fel y nodir yn Atodlen 9 ac a ddangosir ar Gynllun Safle 9B, gyda darn ychwanegol o'r A465 bresennol i'w gau, cyfeirnod 9/S5. Gwneir diwygiadau hefyd i leihau hyd mynedfa preifat presennol Fferm y Gurnos sydd i'w gau, gan ddileu cyfeiriadau 9/2 a 9/4 a rhoi hyd cau newydd yn eu lle, cyfeirnod 9/5.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN CYHOEDDEDIG

Mae disodli'r mynedfa preifat o'r Cynllun Cyhoeddedig gydag un i'r dwyrain yn cysylltu â Prince Charles Junction yn cael gwared ar danffordd fawr, ac yn rhoi cyfle i gaffael llai o dir cyfagos na'r hyn a ddiffinnir ar hyn o bryd ar gyfer y Cynllun Cyhoeddedig.

Mae'r newidiadau wedi'u trafod gyda'r Awdurdod Lleol a, lle bo'n briodol, tirfeddianwyr, partïon eraill â diddordeb a/neu fuddiolwyr, ac ym mhob achos cafwyd adborth cadarnhaol yn cael ei ystyried gan yr holl bartïon yr ymgynghorwyd â nhw fel dewis amgen rhesymol i ddyluniad y Cynllun Cyhoeddedig.

Mae buddion y newid arfaethedig mewn perthynas â'r Cynllun Cyhoeddedig yn cynnwys:

- Cael gwared ar danffordd fawr 30m, gan leihau effaith amgylcheddol ac ôl troed carbon y gwaith adeiladu trwy leihau gofynion concrit a dur;

- Gwell diogelwch a chael gwared ar y risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy gael gwared ar danffordd hir oddi ar Gylchffordd y Gurnos;

- Yn caniatáu tua. 2,300m2 o SoDdGA Taf Fechan a oedd i'w golli yn y Cynllun Cyhoeddedig, i'w gadw a heb ei gyffwrdd;

- Cael gwared ar draffig fferm sy'n troi ymlaen i Gylchffordd y Gurnos, gan ddarparu mynediad uniongyrchol yn lle hynny i'r A465 trwy Prince Charles Junction;

- Llai o waith cynnal a chadw hirdymor oherwydd llai o ôl troed cynllun a llai o ofynion archwilio a chynnal a chadw strwythurol.